



'Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud' - Os ydym am gyflawni hynny, yna mae angen inni reoli ein perfformiad gan wybod pa mor dda rydan ni'n ei wneud a sut allwn wella ar hynny.

Cyfarfodydd Herio Perfformiad

PRYD?

Bob yn ail fis ag eithrio mis Ebrill ac Awst. Ceir amserlen ar gyfer y cyfarfodydd ar y trydydd tudalen.

PWY SY'N MYNYCHU?

Pob Cyfarfod

- Aelod Cabinet
- Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol
- Pennaeth Adran / Pennaeth Cynorthwyol
- Uwch Reolwyr / Rheolwyr Gwasanaeth

Dwy waith y flwyddyn

- Aelod Cabinet cysgodol
- Cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Craffu

Bydd Arweinydd y Cyngor yn mynychu un cyfarfod y flwyddyn ar gyfer pob un adran er mwyn gallu cael trosolwg o faterion, risgiau, a pherfformiad ar draws y Cyngor.

CYFRIFOLDEBAU

- Y Pennaeth Adran fydd yn cadeirio.
- Yr Adran fydd yn trefnu'r cyfarfodydd.
- Bydd disgwyl i'r Adran rannu adroddiad (sy'n cynnwys diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth Cynllun y Cyngor, y mesurau 'dydd i ddydd' a'r gofrestr risg) gyda chi o leiaf 3 diwrnod cyn y cyfarfod.
- Yr Adran fydd yn trefnu cofnodion o'r prif bwyntiau gweithredu.

PA WYBODAETH FYDD YN CAEL EI DRAFOD YN Y CYFARFODYDD?

- Datblygiadau prosiectau'r Adran sydd yng Nghynllun y Cyngor
- Berfformiad mesurau'r Adran (sef y gwaith dydd i ddydd)
- Cofrestr Risg yr Adran

BE SY'N DEILLIO O'R CYFARFODYDD?

Bydd yr Aelodau Cabinet angen cyflwyno adroddiad i'r Cabinet dwy waith y flwyddyn (gweler yr amserlen isod).

Yn ystod mis Ebrill / Mai bydd yr Adran yn casglu gwybodaeth am berfformiad blynyddol y flwyddyn flaenorol. Bydd y wybodaeth yma yn bwydo mewn i Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor. Fe ddylai'r Adroddiad fod yn gytbwys, gan amlygu'r hyn na lwyddwyd i'w gyflawni yn ogystal â'r hyn a gyflawnwyd.

Eich rôl fel cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu

Mae cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

- ◇ Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
- ◇ Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Dylai cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu:

- ◇ Deimlo'n rhydd i gyfrannu i'r cyfarfodydd trwy ofyn cwestiynau ond parchu'r ffaith mai cyfarfod yr Aelod Cabinet yw hwn a'i fod yn bennaf yn gyfle i'r Aelod Cabinet wyntyllu materion perfformiad gyda rheolwyr gwasanaeth unigol.
- ◇ Sylwi ar y cyfarfodydd hyn a ffurfio barn ar afael yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth ar berfformiad o fewn y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.
- ◇ Ffurfio barn ar y tebygolrwydd bod y gwasanaethau y bu trafod amdanynt yn parhau i fedru gwella a darparu gwasanaethau o ansawdd.

Cyfrifoldeb cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu fydd adrodd yn ôl ar yr hyn y maent wedi sylwi.

Disgwylir i'r aelodau craffu adrodd nôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.



2023 - 24	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth	
Dyddiad y cyfarfod Cabinet	Dim cyfarfodydd Herio Perfformiad			11	Dim cyfarfodydd Herio Perfformiad	19	10	7	28	19	23	20	12	
Adrannau i gyflwyno'r adroddiad Cabinet				Plant Oedolion		PaB / YGC Amgylchedd	Addysg Cyllid	Economi CG Tai	Plant Oedolion	Priffyrdd/ YGC Amgylchedd	Addysg Cyllid	Economi CG Tai		
Amserlennu Cyfarfodydd Herio Perfformiad		Plant Oedolion Cyllid Addysg	Priffyrdd / YGC Amgylchedd CG Cyfreithiol Economi Tai	Plant Oedolion Cyllid Addysg		Priffyrdd / YGC Amgylchedd CG Cyfreithiol Economi Tai	Plant Oedolion Cyllid Addysg	Priffyrdd / YGC Amgylchedd CG Cyfreithiol Economi Tai	Plant Oedolion Cyllid Addysg	Priffyrdd / YGC Amgylchedd CG Cyfreithiol Economi Tai	Plant Oedolion Cyllid Addysg	Priffyrdd / YGC Amgylchedd CG Cyfreithiol Economi Tai	Plant Oedolion Cyllid Addysg	Priffyrdd / YGC Amgylchedd CG Cyfreithiol Economi Tai
Yr Arweinydd i fynychu cyfarfod Herio Perfformiad Adrannol		Plant	Priffyrdd / YGC	Oedolion		Amgylchedd	Cyllid	CG Cyfreithiol	Addysg	Economi		Tai		

* Coch - Cyfarfodydd i gynnwys Aelodau Cabinet Cysgodol a Chynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu